# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 11.02.09

**Yn Bresennol:**

**Y Cynghorydd Pat Larsen – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Huw Edwards – Is-gadeirydd**

**Aelodau Cyngor Gwynedd:** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Aeron Jones.

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill:** Mrs Ruth Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mrs Eirian Bradley-Roberts (Yr Eglwys Gatholig), Mr Wyn Meredith (Yr Eglwys Fethodistaidd)

**Athrawon:** Mr Paul Matthews Jones (SHA)

**Swyddogion:** John Blake (Swyddog Addysg), Kenneth Robinson (Swyddog Addysg Cynorthwyol), Bethan James (Ymgynghorydd Dyniaethau), Glynda O'Brien (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Selwyn Griffiths a Dafydd W. Roberts, Mr Gwyn Hefin Jones (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Mr Noel Dyer (UCAC), Parchedig Ganon Tegid Roberts (Yr Eglwys yng Nghymru), Mrs Carol Llewelyn (Athrawes Ymgynghorol).

1. **GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Huw Edwards.
.

2. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Pat Larsen yn eitem 6 ar y rhaglen, Arolygiadau Ysgolion, oherwydd bod ei mab yn Bennaeth yn Ysgol yr Eifl.

'Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac felly ni adawodd y cyfarfod a chymerwyd rhan lawn ganddi yn y drafodaeth ar yr eitem.

3. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(a) Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith mai hwn ydoedd cyfarfod olaf Mr John Blake am ei fod yn ymddeol o'i swydd fel Swyddog Addysg Meirionnydd /Dwyfor. Cydnabuwyd ei ymroddiad a'i wasanaeth fel Clerc CYSAG ers sawl blwyddyn bellach a dymunwyd y gorau iddo gan oll aelodau o'r Pwyllgor a'r swyddogion am ymddeoliad hapus.

(b) Croesawyd Mr Kenneth Wyn Robinson, Swyddog Addysg Cynorthwyol, i'w gyfarfod cyntaf o CYSAG gan mai ef fyddai'n cymryd drosodd rôl o Glerc CYSAG yn dilyn ymddeoliad Mr John Blake.

(c) Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth Mr Jack Thomas a fu'n gyn aelod o Gyngor Gwynedd o 1996 - 2000. Cydymdeimlwyd â'r teulu yn eu profedigaeth, a

gofynnwyd i bawb sefyll am ennyd mewn tawelwch fel arwydd o barch tuag atynt yn eu colled.

4. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar y 8 Hydref 2008.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

5. **AROLYGIADAU YSGOLION**

**Cyflwynwyd:** (a) Gwybodaeth ar gynnwys adroddiadau arolygiadau ysgolion dan Adran 28 Deddf Addysg 2005 mewn perthynas ag Addysg Grefyddol a Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol y disgyblion.

(b) Crynodeb o hunan arfarniad yr ysgolion cynradd canlynol:

(i) Ysgol Bro Plennydd
(ii) Ysgol Llanbedrog
(iii) Ysgol Llidiardau, Rhoshirwaun
(iv) Ysgol Manod
(v) Ysgol Nefyn
(vi) Ysgol Dolgellau

**Adroddwyd:** (a) Adroddwyd gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod pedair o ysgolion cynradd Gwynedd wedi eu harolygu ers y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn gydag un o'r ysgolion hynny wedi derbyn arolygiad mewn Addysg Grefyddol fel pwnc penodol. 'Roedd y gweddill wedi eu harolygu ar gwestiwn allweddol 2 sy'n cyfeirio at "Pa mor dda mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach"? Nodwyd bod tair o'r ysgolion wedi derbyn gradd 2 ac un ysgol wedi derbyn gradd 1 gan yr Arolygwyr.

Cyfeiriwyd at yr adroddiadau a dderbyniwyd ar Hunan Arfarniadau Ysgolion a diolchwyd i'r Penaethiaid am eu cydweithrediad a'u gonestrwydd yn y modd yr oeddynt yn nodi eu targedau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

(b) Gan sawl aelod bod yr hunan arfarniadau yn fodd defnyddiol iawn fel arf rheolaethol a chalonogol ydoedd gweld Penaethiaid yn eu darparu. Yn ychwanegol, llongyfarchwyd Ysgol Llanbedrog yn yr hyn a ymddangosai yn yr hunan arfarniad o'r bwriad i ddatblygu sgiliau ymchwilio dysgwyr. Teimlwyd bod hyn yn fodd o ddatblygu sgiliau iaith y dysgwyr yn ogystal â'r cysylltiad crefyddol drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr arolygiadau a'r hunan arfarniadau a gofyn, yn unol â'r drefn, i'r Swyddog Addysg anfon llythyr at yr ysgolion uchod yn eu llongyfarch am eu llwyddiant a nodi gwerthfawrogiad CYSAG o'r ymdrechion a wneir gan yr ysgolion i gyrraedd y graddau.**

## 6. ADRODDIAD YR YMGYNGHORYDD DYNIAETHAU

Cafwyd cyflwyniad ar ffurf sleidiau gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau ar y math o ddeunyddiau sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar ar gyfer y sector cynradd ynghyd â rhai a drafodwyd yn y cyrsiau hyfforddi athrawon.

Cyfeiriwyd yn benodol at gyfres o lyfrau sydd wedi eu paratoi ar gyfer y sector cynradd, wedi eu cyhoeddi gan Ganolfan Addysg Grefyddol Genedlaethol Bangor sef Archwilio Crefyddau'r Byd heddiw. Cyfres arall a groesawyd gan athrawon ydoedd gan Gavin Craigen a'i wraig a oedd yn canolbwyntio ar ofyn cwestiynau pwysig mewn crefydd. 'Roedd y cyfresi hyn yn cynnig llawer o gyfleoedd a phrofiadau dysgu i'r disgyblion ac yn gosod y cwestiynau o fewn cyd-destun cyfoes.

Cynhaliwyd diwrnod buddiol iawn ym Meirionnydd pryd y daeth athrawon at ei gilydd i drafod y maes llafur cytûn gan bori drwy'r llyfrau a chydweithio i ddatblygu cynlluniau enghreifftiol.

Fel rhan o'r hyfforddiant, defnyddiwyd y llyfr Archwilio'r Eglwys Uniongred a chafodd yr athrawon a'r Ymgynghorydd Dyniaethau groeso gan y Tad Deiniol ar ymweliad i'r Eglwys Uniongred ym Mlaenau Ffestiniog.

Cyfeiriwyd at y math o themâu a drafodir yn y llyfrau a thrafodwyd y math o gwestiynau gall athrawon eu llunio er ceisio eglurhad yn ogystal â cheisio barn sy'n deillio i'r disgyblion orfod chwilio am dystiolaeth i'w hatebion. Trafodwyd sut y gall disgyblion ymchwilio tra eu bod ar ymweliadau ag addoldai, a.y.b. gan ystyried dulliau o gynnal ymholiad.

Mewn ymateb i sylw gan aelod ynglŷn a fyddai'n ddefnyddiol i'r athrawon lunio gêm gydag elfen addysgiadol grefyddol ar gyfer disgyblion, esboniodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod llunio gêm yn hawdd pan drafodir cwestiynau ffeithiol a'i body n anodd i sawl athro/athrawes yn enwedig heb gefndir addysg grefyddol.

Nodwyd gan aelod y byddai defnydd o fideo yn fuddiol i gael cofnod gweledig o drafodaeth disgyblion. Mewn ymateb, cydnabyddai'r Ymgynghorydd Dyniaethau a chynrychiolydd yr athrawon y byddai her i athrawon i'r dyfodol os ydynt am ganiatáu i ddisgyblion ddefnyddio'r dechnoleg fodern megis ffonau symudol yn y dosbarth i ffilmio fel bo modd bwydo'r wybodaeth i safle ysgol. Tueddiad ysgolion ydoedd body n llym iawn gyda disgyblion ar ddefnydd ffonau symudol ond 'roedd rhai ysgolion yn Lloegr wedi mentro gyda'r sialens i ddisgyblion ddefnyddio technoleg fodern yn y dosbarth.

**Penderfynwyd:** **Derbyn, nodi a diolch am y cyflwyniad diddorol.**

## 7. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

**Cyflwynwyd:** (a) Cofnodion drafft cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2008 yng Nghwmbrân.

(b) Gwybodaeth y cynhelir cyfarfod nesaf y Gymdeithas ddydd Gwener, 13 Mawrth 2009 ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

(c) Cod Ymarfer ar gyfer etholiadau ym Mehefin 2009 am ddwy sedd wag ar Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru gyda chais am enwebiadau oddi wrth gynrychiolwyr o CYSAG Gwynedd.

**Adroddwyd:** Gan gynrychiolydd yr athrawon mewn perthynas â'r siom a ddatganwyd yng nghofnodion Cymdeithas CYSAGau Cymru ynglyn â chynrychiolaeth ysgolion a cholegau yn y gynhadledd a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2008, ei fod yn afresymol i ddisgwyl i aelodau staff ysgol fynychu cynadleddau ar ddydd Sadwrn. 'Roedd angen edrych ar y posibilrwydd o'u cynnal yn ystod yr wythnos a mater i'r ysgol wedyn fyddai ystyried rhyddhau staff pe byddai cyllideb yn caniatáu.

Yn ychwanegol trafodwyd yr angen i enwebu cynrychiolwyr ymysg aelodau CYSAG Gwynedd i fynychu cyfarfodydd o Gymdeithas CYSAGau Cymru ac fe bwysleisiodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod hawl i enwebu un cynrychiolydd o bob carfan o'r aelodaeth.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys y cofnodion.**

**(b) Nodi dyddiad cyfarfod nesaf Cymdeithas CYSAGau Cymru.**

**(c) Enwebu Mr Rheinallt Thomas ar gyfer y sedd wag ar Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru.**

**(d) Enwebu'r aelodau canlynol i gynrychioli CYSAG Gwynedd ar Gymdeithas CYSAGau Cymru:**

- **(i) Y Cynghorydd Aeron Jones i gynrychioli'r aelodau etholedig**
- **(ii) Mr Wyn Myles Meredith i gynrychioli Cristnogion a Chrefyddau eraill**
- **(iii) Mr Noel Dyer i gynrychioli athrawon (yn ddibynnol ar iddo dderbyn yr enwebiad ac i gytundeb yr ysgol i'w ryddhau ar gyfer y ddyletswydd hon).**

8. <u>**GOHEBIAETH**</u>

**Ystyriwyd:** (a) Llythyr, er gwybodaeth, dyddiedig 18 Mehefin 2008 ar y cyd oddi wrth Bennaeth Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes Prifysgol Bangor a Chyfarwyddwr Cwrs TAR Uwchradd Addysg Grefyddol Coleg y Drindod, Caerfyrddin ynglyn â Chanolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru.

(b) Llythyr, er gwybodaeth, dyddiedig 12 Ionawr 2009 oddi wrth Gyfarwyddwr, Canolfan y Santes Fair, ynglyn â sefydliad Canolfan y Santes Fair, Penarlâg, Sir Fflint.

**Adroddwyd:** (a) Gan y Swyddog Addysg y cyfeiria llythyr (a) uchod at barhad mewn bodolaeth y Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru ym Mhrifysgol Bangor ac y byddai'r Ganolfan yn parhau i weithio gyda'r gymuned Addysg Grefyddol ddwyieithog led-led Cymru a'i gwasanaethu a bydd yn parhau i adeiladu ar ei henw da cydnabyddedig.

(b) Cyfeiria llythyr (b) uchod at sefydliad Canolfan y Santes Fair ym Mhenarlâg, Sir Fflint, ar gyfer hyrwyddo rhagoriaeth mewn Addysg Grefyddol yng Nghymru a chynrychioli Cymru yn y maes hwn yn rhyngwladol yn ogystal ag ym Mhrydain.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi cynnwys yr ohebiaeth a gyflwynwyd.**

9. **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG GWYNEDD 2007/08**

**Cyflwynwyd:** Er gwybodaeth, adroddiad blynyddol terfynol CYSAG Gwynedd ar gyfer y flwyddyn 2007/08.

Rhoddwyd ystyriaeth gan yr aelodau i adroddiad terfynol CYSAG Gwynedd ar gyfer 2007-08. ‘Roedd y pwyllgor eisoes wedi datgan barn ar yr adroddiad drafft, a chadarnhawyd bod yr adroddiad bellach yn derfynol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a diolch i’r Ymgynghorydd Dyniaethau am ei gwaith yn trefnu a chwblhau’r adroddiad terfynol.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 3.20 p.m.

**CADEIRYDD**